Ysgol Gymraeg Cwmbrân
Cawsom iaith i'w chadw
Ffordd Henllys,
Cwmbrân,
Torfaen
NP44 4HB
Ffôn/Telephone: 01633 483383
www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk
Twitter : @YGCwmbran
Schoop: 10319
Pennaeth/Headteacher: Miss C Evans

08/06/20

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Fel y gwyddoch, mae eich plentyn wedi derbyn lle i fynychu'r Dosbarth Derbyn yn Ysgol Gymraeg Cwmbrân. Fel rheol, byddem yn cysylltu â chi maes o law i drefnu sesiwn flasu i'ch plentyn ac i rannu manylion y cyfarfod gyda fi, athrawon y dosbarthiadau Derbyn ac asiantaethau allanol. Fel y mae pethau, ni allwn drefnu'r rhain am resymau amlwg ond sicrhawn na fydd eich plentyn na chi dan anfantais.

Mae dechrau ysgol yn llawn amser yn gam mawr i unrhyw blentyn ac, er mwyn hwyluso'r broses, rydym wedi paratoi cyflwyniad digidol i'ch helpu chi i drafod gyda'ch plentyn ac er mwyn iddynt gyfarwyddo gyda'r safle a'r athrawon. Yn ogystal, mae yna wybodaeth i chi fel rhieni/gwarcheidwaid ac rydym yn mawr obeithio y bydd yn ateb rhai o'r cwestiynau sydd gyda chi.

**Gellir gwylio'r cyflwyniad ar:** https://spark.adobe.com/video/gV4ncqgE153Fc

Efallai bod gan rai ohonoch blentyn yn yr ysgol yn barod ac rydych yn gyfarwydd â'r ysgol. Mae cyfathrebu clir ac effeithiol â chymuned ein hysgol yn flaenoriaeth i ni. Rydym ar gael i drafod unrhyw ymholiadau neu bryderon a allai fod gennych. Danfonwch neges trwy adran 'Cysylltwch â Ni' ar wefan yr ysgol os hoffech drafod unrhyw beth.

Gofynnwn yn benodol i chi edrych ar y ddolen isod lle ceir copi o'n llawlyfr Derbyn a'r Prosbectws. Os hoffech dderbyn copi caled, cysylltwch â ni trwy'r wefan.

https://www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk/cy/about/policies-forms.php

Byddwn yn eich diweddaru ar ein bwriadau a gwnewch yn siŵr eich bod yn edrych ar wefan yr ysgol a chyfrif Twitter yr ysgol yn rheolaidd a thanysgrifiwch i Schoop. Mae'r manylion ar frig y dudalen a gellir dod o hyd i ganllawiau am danysgrifio i Schoop wrth ddilyn:
https://www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk/docs/associated/file_6596_1567599485.pdf

Gallaf eich sicrhau y bydd eich plentyn yn derbyn cefnogaeth wych ac yn cael amser pleserus iawn yn ein Derbyn a thrwy gydol ei amser yma gyd ni. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at groesawu ein plant newydd i ymuno â chymuned Ysgol Gymraeg Cwmbrân.

Cymerwch ofal a chadwch yn ddiogel.

Yn gywir,

C N Evans

**Catrin Evans**
**Pennaeth**

YSGOL GYMRAEG CWMBRÂN
Cawsom iaith i'w chadw

# Ysgol Gymraeg Cwmbrân

Ffordd Henllys,
Cwmbrân,
Torfaen
NP44 4HB

Ffôn/Telephone: 01633 483383
www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk
Trydar/Twitter : @YGCwmbran
Schoop: 10319

**Pennaeth/Headteacher: Miss C Evans**

08/06/20

Dear Parent/ Guardian,

As you are aware, your child has been allocated a place in the Reception class at Ysgol Gymraeg Cwmbrân. Ordinarily, we would be contacting you to arrange a taster session for your child and to provide you with details of a meeting with myself, the Reception teachers and other external agencies. As things stand, we are unable to arrange these for obvious reasons but please be assured that your child nor you will be disadvantaged in anyway.

Starting school full time is a big step for any child and, in order to ensure the process goes as smoothly as possible, we have prepared a digital presentation for you to discuss with your child and to familiarise them with the school and the Reception teachers. In addition, it contains information for you as parents/guardians and we do hope that it will answer some of the questions you might have.

**You can view the presentation on: https://spark.adobe.com/video/gV4ncqgE153Fc**

Some of you may already have children who attend the school and are familiar with the school. Clear and effective communication with our school community is a priority for us. We are available to discuss any queries or concerns you may have. Please send a message via the 'Contact Us' section of the school website if you would like to discuss anything.

We ask you to look at the following links which will take you to the school website where you will find a copy of our Reception Handbook and Prospectus. If you would like to receive a hard copy, please contact us through the website.

https://www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk/en/about/policies-forms.php

We will keep you updated of our intentions and please make sure that you check the school website and school Twitter account regularly. The details are at the top of the page and you will find guidance on how to subscribe to Schoop here:

https://www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk/docs/associated/file_6596_1567599485.pdf

Rest assured that your child will receive excellent support and will have a very enjoyable time in our Reception class and for the duration of their time here with us. We are very much looking forward to welcoming our new pupils into our school community.

Take care and stay safe.

Yours sincerely,

*C N Evans*

**Catrin Evans**
**Headteacher**